**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

24 Ebrill 2025

Annwyl Andrew

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill yn amlinellu cwmpas ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i lwybrau prentisiaethau.

Rwyf wedi cael golwg ar yr ymateb blaenorol a anfonwyd atoch gan fy nghydweithiwr, Jack Sargeant, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, ar 13 Mawrth yn gofyn i mi ateb un o gwestiynau'r Pwyllgor, ac rwy'n falch o gynnig diweddariad fel y manylir isod.

**Cwestiwn Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig:**
Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol?

**Y cynnydd hyd yma (Ebrill 2025):**

Mae gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a'r adroddiad Pontio i Fyd Gwaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi bod llawer o gyd-ddibyniaeth yn gysylltiedig â chyflawni'r argymhellion a bod y berthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr yn bwysig iawn yn y cyd-destun hwn.

Ein nod wrth roi'r argymhellion ar waith yw cyd-fynd â'r agenda cyfranogi ehangach, gan gynnwys cwricwla 16-19 lleol a gweithio gyda Medr, Gyrfa Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhanddeiliaid eraill ar flaenoriaethau o ran sgiliau. Gan weithio gyda'r partneriaid hyn, ein huchelgais yw creu llwybrau cliriach a mwy hygyrch i bob dysgwr a'u helpu i gael mynediad at arweiniad priodol a'r dysgu sy'n fwyaf addas iddynt.

Yn ystod 2025 byddwn yn canolbwyntio ar nodi'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru a'n partneriaid er mwyn gallu cyflawni'r argymhellion ar y cyd – gyda rhai ohonynt angen tipyn o amser i baratoi ar eu cyfer, er enghraifft cyflwyno TAAU a fydd yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027 ymlaen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar nifer o’r argymhellion sy'n trafod cymwysterau penodol yn yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol, gan Cymwysterau Cymru a Medr mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ymysg yr enghreifftiau mae ehangu aelodaeth grŵp rhanddeiliaid adolygiad sector (argymhelliad 6), craffu ar ganfyddiadau adolygiad sector ar lefel Bwrdd (argymhelliad 7), a datblygiad TAAU (argymhelliad 22). Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd (Medi 2024) ar eu dull wedi'i dargedu o gynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr (argymhellion 19 a 20).

Ynghlwm ceir cynllun cyflawni drafft ar gyfer gweithredu’r argymhellion er mwyn i’r Pwyllgor gael syniad o gwmpas a graddfa’r rhaglen, yn ogystal â’r amserlen ar gyfer ei chyflawni. Fe welwch yn y cynllun bod amserlen ddangosol ar gyfer datblygu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol. Mae fy swyddogion yn trafod gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys Medr, Colegau Cymru, Cymwysterau Cymru, a Phrifysgolion Cymru) i weld os oes modd cyd-ddatblygu’r strategaeth hon o fewn yr amserlen ddangosol. Bydd trafodaethau ehangach â rhanddeiliaid yn dilyn, a dylid nodi y gallai’r trafodaethau hyn effeithio ar yr amserlen ddangosol a ddisgrifir uchod. Byddaf yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor os bydd unrhyw newidiadau.

Fel y gwyddoch, mae llawer o'r argymhellion yn cysylltu â'r agenda sgiliau ehangach, a byddaf yn parhau i gydweithio'n agos gyda’m cyd-Weinidogion, ac ar draws Llywodraeth Cymru a’r DU i gysoni ein nodau polisi lle bo hynny'n briodol.

Yn gywir

**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**




[1] Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol

[2] CC - Cymwysterau Cymru

[3] AHG - Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol